



## Bwletin GwE

CYDWEITHIO

DYSGU

LLWYDDO



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

### Nodyn gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE



Annwyl Bennaeth,

Ar ddechrau tymor newydd, gobeithiaf eich bod chi, eich staff a'ch dysgwyr yn dechrau setlo i mewn i fywyd arferol ysgol.

Wrth i ni edrych ymlaen at y flwyddyn academaidd nesaf a chydweithio â chi ar wreiddio'r Cwricwlwm a goblygiadau'r Canllawiau Gwella Ysgolion newydd, hoffwn eich atgoffa o'r Gynhadledd ar gyfer Arweinwyr / Uwch Arweinwyr a gynhelir yn Venue Cymru, Llandudno ar **Fedi 22ain a 23ain**. Bydd y Gynhadledd "**Arweinyddiaeth Ysbrydoledig: Rhoi'r profiadau gorau un i'n dysgwyr**" yn gyfle i ni osod cyfeiriad ein gwaith i'r dyfodol ac i ni ffocysu ar anghenion cefnogaeth ysgolion wrth symud ymlaen.

#### Amcanion y Gynhadledd:

- Gosod cyfeiriad cenedlaethol a lleol
- Cyfle i ddylanwadu ar gyfeiriad y gefnogaeth i ysgolion
- Cydweithio
- Cyfle i fyfyrion ar flaenoriaethau ysgol / clwstwr / cynghrair
- Rhannu arfer gan arbenigwyr rhyngwladol a lleol
- Cefnogi lles penaethiaid yn y cyfnod nesaf
- Rôl Estyn yn y cyfnod nesaf
- Arlwy Dysgu Proffesiynol

#### Rhaglen y Gynhadledd

Gweler y Rhaglen [yma](#). Edrychwn ymlaen at gyflwyniadau, gweithdai a thrafodaethau gyda chydweithwyr ac at wrando ar siaradwyr gwadd o'r radd flaenaf.

Cwblhewch y ffurflen gofrestru hon **erbyn 13.09.22** os gwelwch yn dda <https://forms.office.com/r/hTn16URLKP> i gadw lle ar gyfer hyd at ddau gynrychiolydd o'ch ysgol.

Edrychaf ymlaen yn eiddgar at eich croesawu ac i fynd i'r afael â'r materion hyn gyda'n gilydd.

Yn gywir,

Arwyn Thomas

Rheolwr Gyfarwyddwr GwE



Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



Canolfan Cefnogaeth GwE



@GwEGogleddCymru



[post@gwegogledd.cymru](mailto:post@gwegogledd.cymru)



[www.gwegogledd.cymru](http://www.gwegogledd.cymru)



[g6.gwegogledd.cymru](http://g6.gwegogledd.cymru)



GwE Gogledd Cymru

# CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

## Cynnig Proffesiynol GwE ar G6

Mae Cynnig GwE ar G6 yn cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnis ar gyfer y flwyddyn ysgol.

**Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.** Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y **ddolen hon** a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

08/09/2022-18/11/2022	Dyddiad	Cyfrwng
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	15/09/2022	Saesneg
Cyflwyniad i'r Wobr Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	28/09/2022	Saesneg
Lefel Sylfaen mewn Hyfforddiant Therapi Gwneud Llun a Siarad	29/09/2022	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	19/10/2022	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma ac Iechyd Meddwl - hyfforddiant 2 ddiwrnod ar gyfer Uwch Arweinwyr	24/10/2022	Saesneg
'Bioffilia' - 'Gwell allan nag i mewn', Dr Coral Harper	18/11/2022	Saesneg

## Cynnig Dysgu Proffesiynol – Dysgu Digidol

Mae cynnis dysgu proffesiynol dysgu digidol ar gyfer 2022-23 yn fyw!

Cliciwch yma i weld yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ar gael:

<https://sites.google.com/hwbcymru.net/cdpplo/iaith-language>



# RHAGLENNI CENEDLAETHOL

## Diploma Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma ac Iechyd Meddwl ar gyfer ANG

Mae hwn yn gyfle cyffrous iawn i athrawon sydd newydd gwblhau eu cyfnod Sefydlu fel ANG (neu ar fin cwblhau yn y tymor nesaf).

Mae'r cwrs wedi'i gyfyngu i 25 o leoedd, felly gwnewch gais cyn gynted â phosib unwaith y byddwch wedi cael caniatâd y Pennaeth. Ariennir y cwrs yn llawn gan GwE os ydych yn llwyddo i gael lle ar y cwrs.

**Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth/ffurflen gais.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol am y cwrs cysylltwch â:

Lindsay Winterbourne - [lindsay@traumainformedschools.co.uk](mailto:lindsay@traumainformedschools.co.uk)

## ANG - Dyddiadau Pwysig ar gyfer 2022/23

Mae dyddiadau'r dysgu proffesiynol ar gyfer ANG a fydd yn gweithio yn eich ysgol o fis Medi 2022 ar gael [yma](#).

Mae'n bwysig bod pob ANG yn mynychu'r Dysgu Proffesiynol.

## Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol

Rydym yn falch o rannu dyddiadau â chi ar gyfer carfanau nesaf y Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth cenedlaethol.

Noder, yn benodol, lansiad y **Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid – paratoi at CPCP**. Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth am y broses ymgeisio. Cynghorir darpar ymgeiswyr yn gryf i wyllo'r fideo o'r sesiwn briffio cyn ymgeisio. Wedi gwyllo'r fideo, ceir cyfle i fynychu sesiwn cwestiwn ac ateb yn ystod mis Medi ar gyfer darpar ymgeiswyr a'u pennaeth / rheolwr llinell. Gweler y dyddiadau yn is i lawr. Cofrestrwch yma ar gyfer sesiwn cwestiwn & ateb: <https://forms.office.com/r/JVTExwcZQg>

### Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol [RhDAG - GwE \(gwegogledd.cymru\)](#)

Ceisiadau yn agor	13/09/22
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 06/10/22
Sesiwn ragarweiniol ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus	w/c 28/11/22
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2023
Rhaglen yn gorffen	Rhagfyr 2023

### Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr [RhDUA - GwE \(gwegogledd.cymru\)](#)

Ceisiadau yn agor	20/09/22
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 13/10/22
Sesiwn ragarweiniol ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus	w/c 28/11/22
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2023
Rhaglen yn gorffen	Rhagfyr 2023

### Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid – paratoi ar gyfer CPCP ([cpcp@gwegogledd.cymru](mailto:cpcp@gwegogledd.cymru))

Lansio'r Rhaglen	22/06/22
Sesiynau cwestiwn ac ateb ar gyfer darpar ymgeiswyr a'u pennaeth / rheolwr llinell	14/09/22 (cyfrwng Cymraeg) 15:30 21/09/22 (cyfrwng Cymraeg) 15:30 20/09/22 (cyfrwng Saesneg) 15:30 28/09/22 (cyfrwng Saesneg) 15:30
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 27/10/22
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2023
Ceisiadau ar gyfer Asesiad CPCP	Tachwedd 2023
Canolfan Asesu CPCP	Chwefror 2024

## NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

### Rhaglen Rhannu Llyfr - 'Llyfrau Gyda'n Gilydd'

#### Hyfforddiant am ddim i Ysgolion Cynradd GwE

A oes gan eich ysgol chi ddiddordeb mewn helpu rhieni i gefnogi darllen gartref?

A oes gennych chi ddiddordeb mewn defnyddio rhaglen i rieni, yn seiliedig ar dystiolaeth?

Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth.



## Dyfodol Byd-eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol

Canolfan Cefnogaeth GwE: [Ieithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd](#) a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau

Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/>

### Athrawon yn dysgu sut i addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd (TELT):



**Dyddiad cau estynedig i gofrestru: 14/9/22**

Cyfle i athrawon cynradd ddysgu iaith ryngwladol, a chael hyfforddiant i gyflwyno ieithoedd mewn ysgolion cynradd drwy'r Brifysgol Agored.

Ariennir y cwrs yn llawn gan Ddyfodol Byd-eang GwE.

Am wybodaeth a ffurflen gofrestru, cysylltwch â [stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru](mailto:stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru)

### Nodyn Atgoffa: Cyfle am gyllid ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol: adnoddau Power Language.



Mae tîm Dyfodol Byd-eang GwE yn cynnig cyfle i ysgolion cynradd yng ngogledd Cymru wneud cais am danysgrifiad i adnoddau Power Language Schools. Ariennir y tanysgrifiad hwn yn llawn.

Mae'r adnoddau ar gyfer athrawon arbenigol ac anarbenigol o'r Cyfnod Sylfaen ymlaen, a darperir pob cymorth: nodiadau i'r athro, ffeiliau sain i helpu efo ynganu, cyfleoedd asesu...

Os oes gennych chi ddiddordeb ac yr hoffech wneud cais am y tanysgrifiad dwy flynedd a ariennir yn llawn, cwblhewch y ffurflen fer hon drwy ddilyn y ddolen isod:

[https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4\\_TzS3ZEGUCRtgHRR5kx6yEiQI3z5Kp1-eGpNfH4ZUMkM1RVE0VTBFNjRPQU5JR0tMNTZZMFQ3Sy4u](https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5kx6yEiQI3z5Kp1-eGpNfH4ZUMkM1RVE0VTBFNjRPQU5JR0tMNTZZMFQ3Sy4u)

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â [stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru](mailto:stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru)

### Cyfle Dysgu Proffesiynol: Partneriaid Dyfodol Byd-eang GwE



**Tsieiñeg i Athrawon: Confucius Bangor**

**10 Hydref – 12 Rhagfyr**

Hoffai Sefydliad Confucius Bangor eich gwahodd i ymuno â chyrsiau **Tsieiñeg i Athrawon**. Fe'u cynhelir ar Zoom ac maen nhw AM DDIM i athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd lleol.

Dogfen i gofrestru : [Adnoddau Dysgu Ar-lein \(bangor.ac.uk\)](http://AdnoddauDysguAr-lein(bangor.ac.uk))

## Cyrsiau Sabothol Iaith Gymraeg 2022-2023



### DARPARIAETH PRIFYSGOL BANGOR

A oes gennych aelod(au) o staff sy'n awyddus i wella eu sgiliau iaith Cymraeg?

**DYDDIAD CAU: 23/09/2022**

Cwrs ar gyfer:

- Athrawon ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg
- Athrawon sydd wedi cwblhau Cwrs Sylfaen Sabothol

sy'n gallu siarad Cymraeg yn eithaf hyderus ond sydd eisiau datblygu eu sgiliau

[Cliciwch yma](#) am fwy o fanylion. [Ffurflen Gais](#).

## Y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP)



A oes gan eich ysgol chi ddi-ddordeb mewn datblygu athrawon fel ymholwyr proffesiynol?

A oes gennych chi ddi-ddordeb mewn defnyddio sgiliau ymchwil ac ymholi fel rhan o werthuso eich gwaith Cwricwlwm i Gymru a'ch darpariaeth ehangach?

Os felly, hwyrach y byddai gennych chi ddi-ddordeb mewn ymuno â'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP) yn 2022-23. Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth.

## Cynhadledd Rhwydwaith Ysgolion Cynradd HAPPEN



Mae'n bleser gennym wahodd ysgolion cynradd i **Gynhadledd Rhwydwaith Ysgolion Cynradd HAPPEN** ar brynhawn 28 Medi. Mae'r gynhadledd hon, ar y cyd rhwng GwE a *Rhwydwaith Ysgolion Cynradd HAPPEN Cymru*, yn gyfle i ddod ag ysgolion cynradd y rhanbarth ynghyd i glywed sut i fynd i'r afael â'r maes iechyd a lles gan ddefnyddio dulliau sydd yn seiliedig ar dystiolaeth.

Yn y gynhadledd, cewch glywed mwy am y rhwydwaith a sut y gellir defnyddio adroddiadau ysgol ac arolwg HAPPEN Prifysgol Abertawe i werthuso a gwella eich darpariaeth. Mae'r gynhadledd yn RHAD AC AM DDIM. Bydd cinio ar gael o hanner dydd a'r sesiwn gyntaf yn cychwyn am 1 o'r gloch. Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth a chadw hyd at ddau le i bob ysgol.

## NEWYDDION A GWYBODAETH CONSORTIA GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL

CONSORTIA GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL  
REGIONAL SCHOOL IMPROVEMENT CONSORTIA



## Cyfle yn y Maes Cymell a Mentora



Mae'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol wedi bod yn datblygu diwylliant Cymell & Mentora trwy Raglen Hyfforddiant Genedlaethol ers dwy flynedd bellach.

Bydd y Rhaglen yn ail-gychwyn yn nhymor yr Hydref ac mae yna rai llefydd, wedi eu cyllido'n llawn, ar gael yng ngharfan GwE ar gyfer **Penaethiaid a Dirprwyon**.

Mae'r rhaglen datblygiad proffesiynol rithiol hon yn cynnwys 6 sesiwn 3½-awr, yn cychwyn mwy na thebyg o wythnos gyntaf mis Hydref ymlaen, ond mae'r union ddyddiadau i'w cadarnhau gan y cydlynedd cenedlaethol. Cynhelir y sesiwnau unwaith yr wythnos am 6 wythnos, yn cychwyn un ai am 9yb neu am 1yp. Os am dderbyn rhagor o wybodaeth am y rhaglen, cysylltwch â [anngrenet@gwegogledd.cymru](mailto:anngrenet@gwegogledd.cymru) os gwelwch yn dda.

## GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

### Hyfforddiant gan Cyfoeth Naturiol Cymru



Eisiau manteisio ar yr amgylchedd naturiol? Hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gael ar gyfer addysgwyr CA2 yr Hydref hwn!  
Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth.



### Gweminar NewsWise - Llythrennedd Newyddion yn y Cwricwlwm i Gymru



Ymunwch â News Wise mewn sesiwn DPP rhad ac am ddim i ganfod mwy am sut gallwch ddefnyddio adnoddau News Wise i roi sylw i llythrennedd beirniadol yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Cewch glywed gan ddau athro o Gymru am eu profiadau wrth addysgu News Wise, a byddwn yn rhannu ein hadnoddau a'n gweithgareddau rhad ac am ddim ar gyfer addysgu llythrennedd newyddion yn y dosbarth. Ar gyfer athrawon ac addysgwyr cynradd yng Nghymru.

Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal Dydd Mawrth, 20ain o Fedi, 4:15 - 5:15. Mae athrawon yn cael arwyddo i fyny am ddim yma:  
<https://www.eventbrite.co.uk/e/news-literacy-in-the-curriculum-for-wales-tickets-379029335947>